RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CRAFFU - ADDYSG A CHYNHWYSIANT**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant a gynhaliwyd Dydd Iau, 14 Rhagfyr 2023 am 5.00 pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei recordio, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd S.Evans (Cadeirydd)

Y Cynghorydd S Emanuel
Y Cynghorydd M Ashford
Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd C Lisles
Y Cynghorydd M Maohoub
Y Cynghorydd J Smith
Y Cynghorydd D Wood

**Aelodau nad ydyn nhw'n Aelodau o'r Pwyllgor**

Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd A Rogers

**Siaradwyr Cyhoeddus**

Mr J Morris

**Aelodau Cyfetholedig oedd yn bresennol:-**

Mr P Booth – Cynrychiolydd Awdurdodau Esgobaethol â'r hawl i bleidlais
Mr M Thomas, Cynrychiolydd yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU)
Mr M Veale – Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr wedi'i ethol â'r hawl i bleidlais

**Swyddogion oedd yn bresennol:-**

Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms C Jones – Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Ms A Richards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid
Ms L Howell, Rheolwr Materion Trefniadaeth a Busnes Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif
Ms S Corcoran, Pennaeth Cyflawniad a Lles ar gyfer Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Pob Oed yn RhCT
Daniel Williams, Pennaeth Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles

**Ymddiheuriadu am absenoldeb**

Y Cynghorydd J Cook    Y Cynghorydd J Elliott
Y Cynghorydd K Webb

**33 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol K Webb, J Elliot a J Cook.

**34 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

**Eitem 4 - Rhag-graffu ar yr Adroddiad i'r Cabinet**

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Maohoub - Buddiant Personol - "Rydw i'n adnabod teulu'r siaradwr cyhoeddus, Mr Morris"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Rogers - Buddiant Personol - "Rydw i'n Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd y Rhigos a Hirwaun"

**Eitem 5 - Adroddiad Blynyddol – Gwaharddiadau o'r Ysgol yn ystod y Flwyddyn Academaidd 2022/23**

Mr Veale - Buddiant Personol - "Rydw i'n Llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher - Buddiant Personol - "Roeddwn i arfer dysgu yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Lisles - Buddiant Personol - "Rydw i'n Llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Evans - Buddiant Personol - "Mae ysgol fy mab wedi'i henwi yn yr adroddiad"

**Eitem 6 - Data Mynychu'r Ysgol**

Mr Veale - Buddiant Personol - "Rydw i'n Ynad ac yn mynychu'r Llys ar gyfer achosion o beidio â mynychu'r ysgol"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Evans - Buddiant Personol - "Fi yw Is-gadeirydd y Corff Llywodraethu yn un o'r ysgolion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad"

**35 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hy

adlewyrchiad cywir o'r trafodaethau a gynhaliwyd, yn amodol ar nodi bod enw Cynghorydd S Emanuel wedi'i sillafu'n anghywir.

## 36 DOLENNI YMGYNGHORI

Cafodd Aelodau'u hatgoffa o'r ymgynghoriadau agored sy'n cael eu cynnal gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Cafodd manylion y rhain eu hanfon at Aelodau ar 30 Tachwedd ac mae'n bosibl y byddan nhw o ddiddordeb i Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant.

## 37 Trefniadau cyn y cam craffu ar adroddiad drafft o'r Cabinet

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad i'r Aelodau er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor gynnal gwaith rhag-graffu mewn perthynas ag argymhellion y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y cafodd eu cyflwyno i Gabinet y Cyngor ar 18 Rhagfyr 2023, mewn ymgynghoriad â'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg mewn perthynas â'r Cynnig i Gau Ysgol Gynradd y Rhigos, gan symud disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun.

Cafodd Aelodau wybod bod yr adroddiad drafft i'r Cabinet wedi'i nodi fel mater a fydd yn destun gwaith rhag-graffu gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant yn unol â rheolau gweithdrefn Trosolwg a Chraffu'r Cyngor. Tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sylw at bwrpas gwaith rhag-graffu'r Aelodau, fel cyfaill beirniadol, sef dylanwadu a chraffu ar benderfyniadau'r Cabinet cyn gwneud y penderfyniadau yma. Manteisiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ar y cyfle i atgoffa'r Pwyllgor Craffu nad ydyn nhw'n gweithredu fel corff sy'n gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r mater yma.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sylw Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant at yr argymhellion sydd wedi'u nod yn ei hadroddiad.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ei hadroddiad sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am ganlyniad yr ymgynghoriad diweddar mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Gynradd y Rhigos a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun erbyn mis Medi 2024. Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod yr adroddiad yn ceisio caniatâd y Cabinet i symud y cynigion ymlaen i gam nesaf y broses ymgynghori trwy gyhoeddi Hysbysiad Statudol priodol a fydd yn sbarduno dechrau'r Cyfnod Gwrthwynebu. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau at adran pedwar o'r adroddiad, sy'n amlinellu canlyniad cyfarfod y Cyngor a gafodd ei gynnal ar 18 Medi 2023 pan roddwyd caniatâd i ddechrau proses ymgynghori ffurfiol mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Gynradd y Rhigos gan drosglwyddo Disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun. Mae'r cyfiawnhad dros wneud hyn wedi'i nodi yn yr adroddiad a'r ddogfen ymgynghori ynghyd â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned. Cafodd y rhain eu llunio mewn perthynas â'r cynnig a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr amlinelliad o gynnwys yr adroddiad ymgynghori sydd wedi'i lunio ac sy'n cynnwys gwybodaeth am gyfarfodydd a gynhaliwyd i drafod y cynigion gyda chopïau o'r nodiadau a luniwyd yn ystod y cyfarfodydd yma,

ymateb llawn Estyn i'r cynnig a'r eglurhad i'r ymateb, crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a lle bo angen, yr eglurhad priodol mewn perthynas â materion a godwyd.

Aeth y Cyfarwyddwr ati i grynhoi cyfanswm nifer yr ymatebion a deisebau a dderbyniwyd, gan amlinellu'r trefniadau ar gyfer dwy sesiwn galw heibio a gafodd eu trefnu ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd y Rhigos er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd drafod y cynigion gyda Swyddogion o Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod pob thema allweddol sydd wedi deillio o'r broses ymgynghori wedi'u cynnwys yn Atodiad A yr adroddiad ymgynghori.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr y prosesau statudol ar gyfer y cynnig pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo. Byddai'r Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2024, cyhyd â bod y cynnig ddim yn destun cais galw i mewn i'w drafod gan y Pwyllgorau Craffu, a byddai'r Hysbysiad yn caniatáu cyfnod o 28 diwrnod, ar y lleiaf, ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau. Os daw unrhyw wrthwynebiadau i law yn ystod y cyfnod yma, byddai Adroddiad Gwrthwynebu yn cael ei lunio a byddai'r mater yn cael ei gyflwyno yn ystod cyfarfod o'r Cabinet yn y dyfodol er mwyn rhoi cyfle i Aelodau ei drafod.

I gloi, nododd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod gan GBSRhCT ddyletswydd statudol yn rhan o'i ddull trefniadaeth ac arwain ysgolion i gynnal effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth a sicrhau bod pob ysgol mewn sefyllfa dda i ddarparu addysg o ansawdd uchel sy’n diwallu anghenion y gymuned ac yn gwneud y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus.

Ar ôl i'r Cyfarwyddwr gyflwyno'r adroddiad, croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau nad ydyn nhw'n Aelodau o'r Pwyllgor, Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol K Morgan ac A Rogers, a rhoddwyd cyfle iddyn nhw fynegi eu pryderon ynghylch y cynnig i'r Pwyllgor. Yna cafodd Mr J Morris, siaradwr cyhoeddus, bum munud i annerch y Pwyllgor mewn perthynas â'r cynnig.

Rhoddwyd diolch i bawb am eu cyfraniadau gwerthfawr a rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Pwyllgor roi sylwadau a gofyn cwestiynau i'r swyddogion a oedd yn bresennol.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch sut y bydd y cynnig yn cyd-fynd â nodau a strategaethau addysg CBSRhCT ond roedd yn falch o glywed gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y byddai hi, yn rhan o gynnig ad-drefnu ysgolion, yn sicrhau bod gan RhCT ysgolion cynaliadwy a hyfyw ar gyfer y tymor hwy, a bod y rhain yn cefnogi pum blaenoriaeth strategol hollgyffredinol yr Awdurdod Lleol (gweler y Cynllun Strategol ar gyfer 2022-25) ac yn cynnal safonau addysgu a dysgu uchel.

Soniodd Aelod am ei brofiad personol yn yr ysgol yn trosglwyddo i ysgol newydd, gyfagos ar ôl i'w ysgol ef gau. Roedd ef o'r farn mai dyma oedd y penderfyniad cywir, un a oedd yn sicrhau bod ei gyfoedion yn mwynhau cyfleusterau a oedd yn addas i'r diben. Ychwanegodd y bydd Ysgol Gynradd Hirwaun, fel y nodir yn yr adroddiad, yn cynnig addysg dda i'r disgyblion sy'n trosglwyddo.

Cododd yr Aelodau nifer o bryderon ynghylch trefniadau cludiant rhwng y cartref a’r ysgol a'r costau ychwanegol posibl y byddai'r Cyngor yn eu hwynebu pe bai'r

cynigion yma'n cael eu mabwysiadu. Yn benodol, roedd nifer o'r Aelodau o'r farn bod diffyg gwybodaeth yn adroddiad drafft y Cabinet ynghylch y costau ychwanegol yma. Gofynnodd nifer o Aelodau am sicrwydd y byddai 'dulliau teithio sy’n briodol i oedran y plentyn’ yn cael eu blaenoriaethu pe bai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi argymhellion yr adroddiad, yn enwedig yn achos disgyblion iau a fyddai’n gorfod teithio gyda myfyrwyr llawer hŷn. Roedd yr Aelodau yn teimlo y byddai’n rhaid i rieni yrru eu plant i'r ysgol os nad oedd hyn yn ystyriaeth.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod y cynnig yn un amlochrog a bod angen ystyried nifer o faterion megis cynaliadwyedd yr ysgol o safbwynt y gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n mynychu lleoliad yr ysgol, cyflwr adeiladau'r ysgol, a'r pwysau ariannol cynyddol ar ysgolion y mae pob Cyngor ledled Cymru yn eu hwynebu. Ychwanegodd fod rhai disgyblion eisoes wedi dewis mynychu Ysgol Cyfrwng Cymraeg ac yn cael mynediad i ddarpariaeth trochi iaith i hwyluso'r broses yma. O ran y daith 2.8 milltir, dywedodd y Cyfarwyddwr fod y mater yn llawer mwy cymhleth na mater ariannol a bod gan y Cyngor rwymedigaeth i sicrhau bod yr ysgolion cywir yn y lleoliadau cywir ac am y rhesymau cywir.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif a Thrawsnewid y byddai dulliau teithio sy'n briodol i oedran y plentyn yn cael eu darparu ar gyfer disgyblion sy'n teithio i’r ysgol a dywedodd hefyd na fyddai dadansoddiad o'r gost ychwanegol ynghylch disgyblion sy'n cael eu cludo i Ysgol Gynradd Hirwaun yn cael ei gynnal nac yn hysbys hyd nes y bydd niferoedd terfynol y rhai sy'n teithio i'r ysgol wedi'u sefydlu, a hynny er mwyn penderfynu ar y bws mwyaf addas i gludo’r disgyblion. Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'r 2.8 milltir yn cael cludiant am ddim yn awtomatig oherwydd y ddeddfwriaeth sydd ar gael mewn perthynas â llwybrau diogel i'r ysgol.

Nododd yr Aelodau'r ôl troed carbon ychwanegol posibl a fydd yn cael ei greu gan y cynigion. Nododd nifer o Aelodau fod angen i'r Cabinet ystyried y cynigion yma yng nghyd-destun ehangach Newid yn yr Hinsawdd, a'r angen i annog trigolion i ddefnyddio dulliau teithio llesol yn y dyfodol. Nododd Aelod y gallai'r arbedion cost sy'n deillio o'r penderfyniad yma fod yn fach iawn o'u cymharu â'r costau ar gyfer cludo'r disgyblion i'r ysgol gan ddefnyddio dull teithio sy'n achosi mwy o lygredd, gan nad yw'n hysbys faint o ddisgyblion fydd yn gymwys i ddefnyddio cludiant ysgol ar hyn o bryd.

Roedd pob Aelod yn cydymdeimlo â phryderon rhieni, ond cydnabu nifer o Aelodau hefyd y byddai caniatáu i nifer y lleoedd dros ben parhau i fod yn uchel yn cael effaith andwyol ar hyfywedd ariannol Ysgol Gynradd y Rhigos yn y dyfodol ac yn effeithio ar addysg plant yn y dyfodol. Holodd Aelod a fyddai’n fwy buddiol gwneud y penderfyniad i drosglwyddo’r disgyblion nawr gan sicrhau eu bod nhw'n derbyn addysg sefydlog a chyson. Nododd nifer o Aelodau fod y rhesymau yma'n rhesymau pwysig i'w hystyried yn rhan o drafodaethau'r Cabinet.

Gofynnodd rhai Aelodau am sicrwydd y bydd y pryderon yma'n cael eu lliniaru, lle bo hynny'n bosibl, a phe bai'r Cabinet o blaid bwrw ymlaen â'r cynnig hwn, bod yr awdurdod yn sicrhau bod cymorth digonol ar waith ar gyfer disgyblion a

rhieni yn ystod y cyfnod pontio. Yn ogystal â hyn, gofynnodd Aelodau bod adeiladau'r ysgol, lle bo'n briodol, yn cael eu defnyddio er budd y gymuned ar gyfer clybiau ar ôl ysgol neu weithgareddau allgyrsiol.

Nododd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid y byddai trosglwyddo ased cymunedol yn opsiwn ymarferol a byddai'r Cyngor yn cefnogi'r gymuned i ddatblygu achos busnes cadarn pe bai rhannau o adeilad yr ysgol yn parhau i gael eu defnyddio er budd y gymuned.

Cydnabu'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y gall newid achosi pryder ond ychwanegodd fod ymrwymiad cadarn i weithio gyda'r plant a'u teuluoedd i hwyluso'r broses drosglwyddo i'r rhai sy'n dewis symud i Ysgol Gynradd Hirwaun. Yn yr un modd, roedd y Cyfarwyddwr yn rhagweld y byddai disgyblion Hirwaun hefyd yn croesawu'r cyfle hwn ar ôl iddyn nhw gael profiad o gyfnod pontio tebyg wrth symud o Ysgol Penderyn. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr hefyd y byddai cymorth yn cael ei ddarparu mewn perthynas â throsglwyddo ased cymunedol pe bai hynny'n cael ei ddwyn ymlaen gan y gymuned.

Holodd Aelod a oedd achos busnes wedi'i ystyried ar gyfer buddsoddi mewn gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn yr ysgol bresennol wrth gydnabod y buddsoddiad diweddar mewn ysgol newydd ar gyfer ardal Hirwaun a'r capasiti sydd ar gael. Cyfeiriodd llawer o Aelodau at y cyfleusterau gwell a'r amgylchedd dysgu a ddarperir gan ysgol fodern.

Esboniodd y Rheolwr Materion Trefniadaeth a Busnes Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif fod nifer o opsiynau i'w hystyried yn y ddogfen ymgynghori a bod yr opsiwn o adeiladu ysgol ar y safle presennol yn gofyn am ystyriaeth ofalus o ran cyfanswm y buddsoddiad, hyfywedd y prosiect, cyfiawnhad o gyfanswm y buddsoddiad i Lywodraeth Cymru a hynny gan ystyried bod yna ysgol newydd sbon ychydig filltiroedd i ffwrdd gyda lle i dderbyn dysgwyr ychwanegol. Dywedodd Rheolwr Materion Trefniadaeth a Busnes Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif fod yr wybodaeth wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori, gan gynnwys yr anfanteision a'r manteision.

Mynegodd Aelod bryder ynghylch y nifer fawr o wrthwynebiadau i'r cynnig yn enwedig gan drigolion Hirwaun a gofynnodd am eglurder ynghylch pa welliannau y mae modd eu rhoi ar waith i ffordd fynediad ac allanfa Ysgol Gynradd Hirwaun er mwyn sicrhau bod modd i'r llwybrau yma ymdopi â rhagor o ddisgyblion fydd efallai'n teithio mewn car neu fws. Soniodd yr Aelod hefyd am bwysigrwydd sicrhau mynediad cyfartal i ddarpariaethau megis clybiau ar ôl ysgol a nosweithiau rhieni ar gyfer y rhieni hynny sydd heb fynediad i gludiant neu lle nad yw trafnidiaeth gyhoeddus yn ddibynadwy (yn unol â'r agenda gwrthdlodi sy'n cael ei flaenoriaethu gan y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant).

Cyfeiriodd Aelod at adroddiad Estyn (sy'n ffactor pwysig yn ei farn ef) a gofynnodd am sicrwydd y bydd safonau addysgu a dysgu yn Ysgol Gynradd Hirwaun cystal â safonau Ysgol Gynradd y Rhigos. Yn ogystal, nodwyd bod ysgolion bach yn chwarae rhan bwysig yn eu cymunedau ac o fudd i'r gymuned (fel y mae'r ysgolion pob oed).

Cyfeiriodd Aelod at y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a gofynnodd am sicrwydd y bydd carfan priffyrdd y Cyngor yn cael ei chynnwys, os cytunir ar y

cynnig, a hynny er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r ffordd fynediad, allanfa, cyfleusterau parcio a chyrbau isel yng nghyffiniau Ysgol Gynradd Hirwaun. Cadarnhaodd y Rheolwr Materion Trefniadaeth a Busnes Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud i'r ardal a'r ffordd fynediad i'r ysgol pan gyflwynwyd y cais cynllunio ar gyfer yr ysgol newydd, a hynny cyn agor yr ysgol. Adeiladwyd maes parcio newydd a chyflawnwyd gwaith yn rhan o'r fenter llwybrau diogel a bydd gwaith pellach yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf i greu llwybrau diogel ychwanegol i'r ysgol o bellter pellach.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod Arolygon Estyn, y cyfeiriwyd atyn nhw'n gynharach yn y cyfarfod, wedi'u cynnal beth amser yn ôl, yn 2019. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr fod arolygon yn cael eu cynnal ar adeg benodol a bod lefelau gwella ysgolion yn amrywio. Nododd y Cyfarwyddwr fod y ddwy ysgol bellach mewn categorïau cymorth craidd ac nid yw'r ysgolion yn derbyn cymorth ychwanegol gan Gonsortiwm Canolbarth y De. Roedd ymateb ffurfiol Estyn yn nodi bod y cynnig o leiaf yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg a deilliannau i ddisgyblion yr ardal a does dim gwybodaeth sy'n peri pryder yn ymwneud â'r naill ysgol na'r llall wedi'i dwyn i sylw Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth y Pwyllgor mewn perthynas â'r cynnig, roedd Aelodau wedi nodi'r heriau y byddai'r cynnig yn eu cyflwyno i unigolion a'r gymuned os yw'r cynnig yn cael ei fabwysiadu gan y Cabinet ac roedden nhw'n dymuno bod eu sylwadau'n cael eu hystyried a'u cyfleu.

**PENDERFYNWYD:**

i) Craffu a herio'r adroddiad 'drafft' i'r Cabinet ac argymhellion y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, mewn ymgynghoriad â'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg.

ii) Yn dilyn trafodaeth yr Aelodau mewn perthynas â'r adroddiad drafft i'r Cabinet, penderfynwyd awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i gyflwyno sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor i'r Cabinet mewn perthynas â'r cynigion cyn i'r Cabinet drafod y cynnig ar 18 Rhagfyr 2023.

**38 ADRODDIAD BLYNYDDOL – GWAHARDDIADAU O'R YSGOL YN YSTOD Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2022/23**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant yr adroddiad i'r Aelodau i

roi dadansoddiad iddyn nhw o ddata gwaharddiadau o'r ysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23 a chymharu'r data gwaharddiadau yma gyda'r 5 mlynedd diwethaf, ble y bo'n addas.

Cafodd yr Aelodau wybod bod yr adroddiad yn darparu dadansoddiad a gwerthusiad o ddata gwaharddiadau dros gyfnod o 5 mlynedd. Oherwydd bod cyfraddau gwahardd yn ystod y pandemig wedi'u heffeithio gan nifer sylweddol o ysgolion yn cau yn ystod y cyfnod yma, nid oes modd cymharu cyfraddau gwahardd yn ystod y pandemig yn uniongyrchol â blynyddoedd academaidd arferol, a dyna pam y penderfynwyd cynnwys cymaryddion â data cyn-Covid mewn perthynas â rhai setiau data penodol yn yr adroddiad.

Yn dilyn y cyflwyniad, gofynnodd Aelod a oes modd cysylltu'r data sy'n ymwneud â gwaharddiadau â'r disgyblion hynny sydd â phresenoldeb gwael gan nodi y gallai gweld y gydberthynas hon fod yn ddefnyddiol wrth oresgyn problemau sy'n ymwneud â phresenoldeb yn y dyfodol. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant y gellid cynnal y dadansoddiad o'r safbwynt yma i ddeall a oes unrhyw gydberthynas a rhannu'r dadansoddiad yma gyda'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant maes o law.

Holodd Aelod arall a oes unrhyw dystiolaeth o faterion lles yn effeithio ar y plant hynny sydd ychydig yn is na'r trothwy ar gyfer gwaharddiad a pha ffactorau, os o gwbl, sy'n wahanol yn y fwrdeistref sirol a allai effeithio ar y data sy'n benodol i RhCT. Roedd yr Aelod yn arbennig o bryderus am y cyfraddau gwahardd uwch yn RhCT nag mewn ardaloedd eraill ac effaith yr achosion o wahardd ar les athrawon a'r disgyblion hynny sy'n dymuno bwrw ymlaen â'u dysgu.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant nad yw data sy'n ymwneud â lles unigolion yn cael ei goladu, fodd bynnag, mae'r garfan yn cysylltu â'r holl ysgolion ar y materion penodol hyn ac maen nhw'n yn cael eu codi'n fwy rheolaidd erbyn hyn. Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant at y cymorth sydd ar gael mewn ysgolion, megis cymorth ADY a'r cymorth sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â materion lles emosiynol a chymdeithasol. Cyfeiriodd at hyfforddiant NurtureUK, dyma sefydliad sydd wedi ymroi i wella iechyd meddwl a lles cymdeithasol ac emosiynol plant a phobl ifanc gyda phwyslais ar ddeall y sbardunau ar gyfer ymddygiad a manteision rhannu data o'r math yma.

Awgrymodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod effaith Covid ar y fwrdeistref sirol yn aruthrol gyda lefelau uchel o drawma o ganlyniad i'r niferoedd sylweddol o farwolaethau a ddioddefwyd gan deuluoedd a chymunedau. Mae hyn, yn ogystal â lefelau uchel o ran tlodi ac amddifadedd yn y rhanbarth, yn cael effaith ar faterion lles.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant fod y safle cenedlaethol cyffredinol wedi gwella. Er bod yna broblemau yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol o hyd (mae hyn yn gyffredin ar draws awdurdodau lleol eraill), nid oedd unrhyw ffactorau sylfaenol nac unigryw yn cyfrannu at y data a lefelau uwch o ran gwaharddiadau.

Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant at gymorth ychwanegol wedi'i ariannu gan gyllid grant sydd ar waith ar gyfer Penaethiaid, staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu. Mae'r cymorth yma'n cynnig sesiynau cwnsela a lles y tu allan i oriau ysgol ac ar benwythnosau, sy'n golygu ei bod hi'n hawdd cael mynediad atyn nhw. Mae'r cymorth yma wedi cael ei groesawu.

Ychwanegodd fod gwaith yn parhau i gael ei gynnal er mwyn adolygu ymddygiad mewn ysgolion uwchradd, gan gynnwys o safbwynt staff ac i argymell bod ysgolion yn sicrhau bod pob aelod o staff yn atebol.

Ymatebodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant i ymholiadau pellach, eglurodd y broses o ailgyflwyno disgyblion ar ôl symud o waharddiad parhaol i waharddiad cyfnod penodol neu o ganlyniad i benderfyniad panel apêl annibynnol lle gellir gwrthdroi neu fynd yn erbyn penderfyniad, gan nodi y dylai'r disgybl fynychu ysgol wahanol. Hefyd mae yna Athro Gwahardd, Atal ac Ymyrraeth effeithiol y mae'r Pennaeth yn ei ystyried yn gyfaill beirniadol ac sy'n gallu gwneud penderfyniad gwahanol yn dilyn adolygiad o'r wybodaeth. O ran y posibilrwydd o ddyblygu data, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant fod y data ar gyfer ysgolion pob oed yn tynnu ar rywfaint o ddata o ysgolion cynradd ac uwchradd ond caiff y data ei gyflwyno fel carfan ar wahân.

Cydnabu Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant y byddai cyd-destun pellach ynghylch canran y dysgwyr sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim ac sy'n cael eu gwahardd yn cael ei ddarparu yn yr adroddiad dilynol i'r Pwyllgor (yn ogystal â'r hyn a nodwyd yn y trosolwg). Bydd dadansoddiad o'r hyn sy'n digwydd i'r disgyblion sy'n cael eu gwahardd yn barhaol hefyd yn cael ei ddarparu.

Holodd Aelod a oedd gwaith yn parhau gyda'r ysgolion hynny sydd â thueddiadau data sy'n peri pryder o ran nifer y gwaharddiadau, ac a fydd hynny'n dangos unrhyw welliannau i'r ysgolion a grybwyllwyd yn benodol yn yr adroddiad yn 11.5. Hefyd, a fydd yr Awdurdod Lleol yn myfyrio ar yr adolygiad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Canllawiau ar gyfer Gwaharddiadau ac yn cyflwyno sylwadau amdano. Pan fydd ysgol yn ceisio cymorth penodol gan y garfan o amgylch yr ysgol, rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant wybod ei bod hi'n cymryd peth amser i wreiddio'r broses a rhoi gwybod am ddeilliannau'r cymorth sy'n cael ei ddarparu. Fodd bynnag, lle nad yw cynnydd yn cael ei nodi mewn modd amserol, mae modd dilyn proses uwchgyfeirio a chynnal adolygiad o ymddygiad gan nodi argymhellion y mae gofyn i'r ysgolion eu rhoi ar waith.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant y byddai unrhyw ganlyniadau o adolygiad Llywodraeth Cymru o'r canllawiau ar gyfer gwaharddiadau yn cael eu darparu maes o law.

Cyfeiriodd Aelod at y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd a phwysigrwydd y swyddog yma a gofynnodd sut y mae modd i'r awdurdod lleol gefnogi ysgolion i ehangu'r ddarpariaeth, a ddylai fod yn flaenoriaeth (wrth gydnabod y pwysau ariannol ar ysgolion). Yn ogystal â hyn, mynegwyd pryder mewn perthynas â thudalen 101 o'r adroddiad, gan nodi bod pedair ysgol uwchradd wedi gwrthod y cynnig o hyfforddiant. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r rhesymau dros eu penderfyniad ac a oes unrhyw bryderon yn ymwneud â'r pedair ysgol sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad. Codwyd ymholiad mewn perthynas â lefel yr ymwybyddiaeth sydd gan y Corff Llywodraethu am yr ymyraethau sy'n cael eu rhoi ar waith a sut maen nhw'n cyfrannu at ddatrys materion sy'n ymwneud â gwaharddiadau.

O ran y data ADY, holodd Aelod ai hwn oedd y data mwyaf diweddar ac a yw'r adroddiad yn ystyried disgyblion ag ADY o dan y ddeddfwriaeth newydd a'r rhai sydd â ChDU.

Ymatebodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant i'r ymholiadau gan egluro

bod un o'r pedair ysgol yn derbyn cymorth gan y garfan o amgylch yr ysgol; mae'r awdurdod lleol yn parhau i weithio gyda phob ysgol er mwyn annog ymgysylltiad. Ers i'r adroddiad gael ei lunio, mae Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru wedi sicrhau achrediad Nurture UK yn ogystal â'r un ysgol gynradd sydd eisoes wedi'i rhestru yn yr adroddiad. Cydnabu Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant fod Ysgol Gyfun Cwm Rhondda wedi dechrau darpariaeth cyfran pedwar ac y bydd yn derbyn ymweliadau cefnogol a fydd yn cynnwys Corff Llywodraethu'r Ysgol. Dywedwyd y bydd gwaharddiadau a chyfraddau mynychu'r ysgol yn cael eu cynnwys fel eitem ar yr agenda ar gyfer pob Corff Llywodraethu'r tymor nesaf a hynny er mwyn rhoi'r wybodaeth briodol iddyn nhw fel bod modd iddyn nhw ddarparu cymorth a her mewn perthynas â'r sefyllfa. Anogir Cadeirydd y Llywodraethwyr i gymryd rhan lle bo modd ac os yw'r data'n peri pryder bydd cymorth yn cael ei ddarparu i'r ysgolion, gan gynnwys gosod targedau penodol ar gyfer yr ysgolion hynny. I gloi, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant y bydd Cadeiryddion y Llywodraethwyr hefyd yn cael cyflwyniad yn nhymor y Gwanwyn ynghylch rolau a chyfrifoldebau arweinwyr Ysgol ac atebolrwydd.

Cyn dod â'r drafodaeth i ben, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant fod y data AAA ac ADY wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**:

(i) Adolygu'r wybodaeth yn yr adroddiad a gwneud sylwadau amdani; a

(ii) Derbyn adroddiad yn ystod y cyfarfod addas nesaf o'r pwyllgor er mwyn rhoi cyd-destun pellach mewn perthynas â chanran y dysgwyr sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim ac sy'n cael eu gwahardd, dadansoddiad o ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol a'r gydberthynas rhwng gwaharddiadau a lefelau presenoldeb.

## 39 DATA PRESENOLDEB MEWN YSGOLION

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth - Mynychu'r Ysgol a Lles adroddiad i Aelodau sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ddata presenoldeb mewn ysgolion ledled yr awdurdod lleol a chamau gweithredu'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles a'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ehangach i gynyddu lefelau presenoldeb.

Yn yr un modd â'r adroddiad blaenorol a gyflwynwyd i'r Aelodau, nododd Aelod nad oedd yr adroddiad yma'n cynnwys yr un lefel o fanylder. Gofynnwyd bod y mater yma'n cael ei ystyried wrth lunio'r adroddiad nesaf ar gyfer y cyfarfod nesaf, gan holi a fyddai modd cynnwys amrywiannau lleol mewn perthynas â data presenoldeb. Yn ogystal, codwyd ymholiad mewn perthynas â pharagraff 4.1 a gofynnwyd a oedd ystadegau Haf 2 ar gael ar gyfer y cyfnod uwchradd, a hynny oherwydd bod y tymor yma'n cynrychioli'r tymor gwaethaf o ran lefelau presenoldeb.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth - Mynychu'r Ysgol a Lles wybod bod adroddiadau hanner tymor yn cael eu cyhoeddi a'u rhannu â phob ysgol. Mae'r adroddiadau yma'n cynnwys data cymharol, y gall Llywodraethwyr ofyn amdano os ydynt yn dymuno ei weld. Cafodd yr adroddiad yma ei rannu â'r Pwyllgor Craffu yn dilyn yr adroddiad blaenorol ar bresenoldeb yn gynharach yn y flwyddyn. Fodd bynnag, yn unol â Fframwaith Estyn, nid rôl yr Awdurdod Lleol

yw cymharu cyflawniad ysgolion yn erbyn ysgolion eraill. Eglurodd Pennaeth Gwasanaeth - Mynychu'r Ysgol a Lles yr anawsterau wrth gasglu data mewn perthynas â tharged cyflawniad cyffredinol yr ALl; fodd bynnag, roedd yn gallu cadarnhau'r ffigurau dangosol o 91.8% ar gyfer ysgolion cynradd ac 89.4% ar lefel uwchradd. Ychwanegodd nad oes ffigyrau cenedlaethol ar gyfer yr hanner tymor diwethaf ar gyfer ysgolion uwchradd (darparwyd gwybodaeth am ysgolion cynradd) gan fod Llywodraeth Cymru yn casglu'r data ar lefel genedlaethol ar ddiwedd mis Mai. Byddai casglu data Haf 2 yn cynnwys anomaleddau, gan ystyried bod blwyddyn 11 yn absennol yn dilyn eu harholiadau. Er gwaethaf yr anghysondeb a'r gostyngiad yn y ffigurau mynychu'r ysgol, roedd y Pennaeth Gwasanaeth - Mynychu'r Ysgol a Lles yn hapus i ddarparu'r data gan fod yr Aelodau wedi nodi bod addysg yn cwmpasu chwe hanner tymor ac y dylid olrhain presenoldeb hefyd ar draws y cyfnod yma. Cytunwyd y byddai hyn yn gam gweithredu clir ar gyfer yr adroddiad nesaf.

Gofynnodd Aelod arall a oedd modd cynnwys crynodeb clir o'r materion amlwg allweddol sy'n deillio o'r Adroddiad Monitro Presenoldeb a dywedodd y byddai'r wybodaeth ychwanegol yma'n helpu'r Pwyllgor i ddeall yr heriau gwirioneddol a gofynnodd am ragor o fanylion am y rhan o'r adroddiad sy'n amlinellu triwantiaeth a hynny er mwyn deall sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r mater yma ac a yw'r ymgyrch hysbysebu wedi cael ei chynnal.

Esboniodd Pennaeth Gwasanaeth - Mynychu'r Ysgol a Lles fod gwaith yn cael ei gynnal gyda dau gwmni hysbysebu ar hyn o bryd, mae un yn canolbwyntio ar ysgolion cynradd gan ddefnyddio'r cymeriad 'Super Fynychwr' sydd eisoes wedi cael ei ddefnyddio mewn ysgolion ar ffurf gwisg. Mae'r cysyniad yma wedi cyflwyno heriau felly mae'r awdurdod lleol yn ystyried cynnal ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a chreu fideos i'w defnyddio mewn ysgolion. Bydd y fideos ar gyfer ysgolion uwchradd yn canolbwyntio ar rwystrau i oresgyn materion sy'n ymwneud â mynychu'r ysgol, ffilmio'r fideos mewn ysgolion a chasglu astudiaethau achos y mae modd eu rhannu. Daeth â'i gyfraniad ef i ben drwy nodi bod hyn yn cyd-fynd â'r strategaeth, gydag adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Mawrth, sef blwyddyn ers yr adroddiad blaenorol. Mae'r cyfnod yma wedi rhoi digon o amser i gasglu adborth a diweddariadau.

O ran Hysbysiadau Cosb Benodedig, gofynnwyd cwestiwn ynghylch a oedd yr un materion/plant yn codi tro ar ôl tro mewn cyfnod penodol neu a yw'r Hysbysiad Cosb Benodedig yn atal yr ymddygiad yma, gan fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â phresenoldeb. Gofynnwyd a oedd y 207 Hysbysiad Cosb Benodedig y cyfeiriwyd atyn nhw yn yr adroddiad yn cynnwys unrhyw wyliau heb ei awdurdodi ac ai'r fersiwn 'hawdd i'w ddarllen' sydd wedi'i chynnwys yn y ddolen sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad i Ganllawiau newydd Llywodraeth Cymru. Croesawodd Aelod unrhyw gyngor da pellach o'r canllawiau.

Esboniodd Pennaeth Gwasanaeth - Mynychu'r Ysgol a Lles y gellir cynnwys natur yr absenoldebau fesul cod yn yr adroddiad nesaf. Eglurodd mai salwch yw'r cod sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf aml, gyda chodau eraill megis cod 'C' sy'n sefyll am 'absenoldeb arall wedi'i awdurdodi' ac 'O' sy'n golygu 'absenoldeb arall heb ei awdurdodi'. Nid yw'r Awdurdod Lleol wedi derbyn unrhyw reswm am y codau yma, yn syml maen nhw'n gymwys i fod yn rhan o ddiffiniad Llywodraeth

Cymru ar gyfer y codau yma. Byddai Systemau Rheoli Gwybodaeth Ysgolion yn cynnwys rhesymau unigol dros ddefnyddio'r cod e.e. profedigaeth, dydy'r rheini ddim wedi rhoi rheswm am yr absenoldeb ac ati. Fodd bynnag, esboniodd Pennaeth Gwasanaeth - Mynychu'r Ysgol a Lles y byddai modd cyflwyno'r wybodaeth am yr achosion sy'n cael eu hatgyfeirio i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles i'r Pwyllgor. Mae'n bosibl y bydd yr wybodaeth yma'n ddefnyddiol gan eu bod nhw'n nodi'r rhesymau dros gynnal yr ymweliadau y gallai'r awdurdod lleol eu cynnal, megis materion iechyd meddwl, peidio ag ymateb i'r ysgol neu ddiffyg cyfathrebu.

Cyfeiriodd Pennaeth Gwasanaeth - Mynychu'r Ysgol a Lles at y 466 Hysbysiad Cosb Benodedig a oedd *'heb ei gyflwyno yn dilyn rhybudd o ganlyniad i welliant o ran cyfraddau presenoldeb',* roedd y disgyblion yma'n destun cyfnod monitro 3 wythnos ac felly heb symud ymlaen i HCB llawn. Esboniodd fod yna nifer o ddisgyblion sydd â chyfradd absenoldeb o 20-25% yn gyson oherwydd hysbysiadau cosb benodedig o ganlyniad i wyliau, ac mae'r rhain yn tueddu dod o ysgolion uwchradd. Roedd Gweithgor Craffu a ddaeth at ei gilydd i drafod Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi darparu data a ddangosodd gyfradd llwyddiant o 50%, lle arweiniodd yr Hysbysiadau Cosb Benodedig at welliant mewn cyfraddau presenoldeb, ond roedd 50% wedi gostwng/heb newid. Dangosodd y dystiolaeth fod yr HCB yn cael effaith i raddau, ond nid ym mhob achos, tra bod yr hysbysiad monitro'n fwy effeithiol.

Aeth y Pennaeth Mynychu'r Ysgol a Lles ati i ymateb i ymholiadau pellach a dywedodd fod pedwar cam gweithredu mewn perthynas â thriwantiaeth wedi'u cynnal y llynedd, gan weithio ochr yn ochr â Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig neu Heddlu De Cymru i gynnal patrolau, nodi triwantiaid a'u dychwelyd i'r ysgol. Ychwanegodd fod ffurflenni atgyfeirio plant sy'n colli addysg bellach ar gael ar-lein i'w cwblhau ac mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r tudalennau gwe. Dywedodd Pennaeth Gwasanaeth - Mynychu'r Ysgol a Lles fod meysydd pellach yn cael eu datblygu i ddarparu system wybodaeth y mae modd i aelodau'r cyhoedd gael mynediad iddi gan fod gohebiaeth gan y cyhoedd yn gyfyngedig i un neu ddau y mis ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i ymholiad mewn perthynas â'r adroddiad Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth - Mynychu'r Ysgol a Lles fod yr adroddiad yma wedi cael ei rannu gyda'r adroddiad hanner tymor. Dyma faes yr oedden nhw'n bwriadu ei ddatblygu yn rhan o'r strategaeth, gan dreialu fforymau Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiwn ar ffurf aml-asiantaeth, bydd y rhain yn cynnwys y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, arweinydd presenoldeb, y seicolegydd addysg a'r gwasanaeth ieuenctid, gan ystyried y disgyblion hynny sy'n osgoi'r ysgol ar sail emosiwn. Cyfeiriodd hefyd at swyddogion cymorth wedi'u targedu, sy'n cael eu cyflogi drwy grantiau Llywodraeth Cymru ac sy'n gweithio ochr yn ochr â charfannau o ddysgwyr sydd ychydig yn uwch na throthwy y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles, gan ddefnyddio llyfrau gwaith am 6 wythnos i nodi pwysigrwydd mynychu'r ysgol ac amlygu'r cysylltiadau â chyrhaeddiad ac amcanion o ran gyrfaoedd yn y dyfodol. Ychwanegodd fod y prosiect Golau Gwyrdd mewn ysgolion uwchradd wedi'i ymestyn trwy grant Llywodraeth Cymru tan fis Awst.

Gofynnodd Aelod am ddata pellach yn canolbwyntio ar y cysylltiadau rhwng lefelau presenoldeb a gwaharddiadau ar lefel ysgol ac a ddylid ystyried y rhain yn rhan o un adroddiad gan eu bod nhw'n cael eu trafod ar wahân ar hyn o bryd. Roedd Pennaeth Gwasanaeth - Mynychu'r Ysgol a Lles wedi ymateb drwy ddweud bod data a chroesgyfeirio data presenoldeb a gwaharddiadau eisoes yn cael eu hystyried yn fewnol ac yn ffurfio rhan o ddull y garfan o amgylch yr ysgol lle mae materion sy'n ymwneud â phresenoldeb a gwaharddiadau yn ffactor allweddol wrth gynnal ymweliadau ar y cyd ag ysgolion. Maes arall lle mae ysgolion yn cael eu herio yw lle mae'r cyfraddau gwahardd a chyfraddau presenoldeb wedi gostwng, o bosibl gan nad yw ysgolion bellach yn gwahardd y disgyblion yma gan nad ydyn nhw'n mynychu mwyach.

Aeth y Cadeirydd ati i grynhoi'r trafodaethau ac awgrymodd y dylid cynnwys nifer o enghreifftiau o arferion gorau yn rhan o adroddiadau dilynol i ddangos y meysydd hynny lle mae ymyriadau a mentrau presenoldeb ar waith, gan y byddai'n darparu gwybodaeth werthfawr i'r Pwyllgor. Yn yr un modd, bod yr enghreifftiau o arfer gorau yn cael eu rhannu ag ysgolion a bod tystiolaeth o sut mae hyn yn cael ei gyflwyno hefyd i'w gweld mewn adroddiadau yn y dyfodol a hynny er mwyn rhannu ac ailadrodd yr arfer orau.

Cyfeiriodd Pennaeth Gwasanaeth - Mynychu'r Ysgol a Lles at ddwy astudiaeth achos arfer gorau sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd fod enghreifftiau o arfer gorau yn cael eu rhannu'n rheolaidd gyda swyddogion Mynychu'r Ysgol a Lles a thrwy fforymau Penaethiaid. Soniodd am achlysur mynychu'r ysgol a lles a gynhaliwyd yn ddiweddar ac sydd wedi'i nodi ym mharagraff 5.5. Daeth dros 80 o ysgolion i'r achlysur a oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan ysgolion RhCT a chyflwyniad gan ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn dilyn eu hadroddiad llwyddiannus gan Estyn.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

(i) Adolygu'r wybodaeth yn yr adroddiad a gwneud sylwadau amdani; a

(ii) Derbyn adroddiad pellach yn ystod y cyfarfod addas nesaf a fydd yn cynnwys data pellach ac enghreifftiau o arfer da, yn unol â chais y Pwyllgor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.35 pm**

**Y Cynghorydd S.Evans**
**Cadeirydd.**

Tudalen wag